# Yr Ysgol Meddygaeth

**Rhaglenni Gradd**
Israddedig 2026



Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Mae **100%** o fyfyrwyr Ffarmacoleg Feddygol yn dweud bod y cwrs yn ddeallusol ysgogol, yn cyflwyno pynciau a sgiliau mewn ffordd sy'n adeiladu ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn barod, ac yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau rydych chi'n credu y bydd eu hangen arnoch ar gyfer y dyfodol.

(Ffarmacoleg Feddygol, NSS 2024)

Blwyddyn Ddewisol ar Leoliad Proffesiynol (PPY) rhwng yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf, gan ddatblygu eich rhagolygon gyrfa a'ch sgiliau cyflogadwyedd.

(Ffarmacoleg Feddygol)

---

Bydd popeth a ddysgwch yn eich paratoi at eich gyrfa: Dysgu ar Sail Achosion, cwricwlwm troellog, Blwyddyn Bontio a mwy.

(Meddygaeth)

Dysgwch am feddygaeth mewn dinasoedd cymhleth, pentrefi gwledig a phopeth yn y canol.

(Meddygaeth)

---

Cyswllt â chleifion o gam gynnar ym mlwyddyn un.

(Meddygaeth)

Cyfle i deilwra'ch cwrs i'ch diddordebau chi, gydag opsiynau i deithio dramor.

(Meddygaeth)

# Dywed 94% o fyfyrwyr fod y cwrs yn cyflwyno pynciau a sgiliau mewn ffordd sy'n adeiladu ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn barod.

(Meddygaeth, NSS 2024)

# Eich paratoi i ddod y meddyg gorau y gallwch chi fod

Gyda dros 130 mlynedd o brofiad mewn addysg feddygol, byddwn ni'n eich paratoi ar gyfer gyrfa feddygol gyffrous a gwerth chweil, fel y gallwch chi drin cleifion yn hyderus o'ch diwrnod cyntaf fel meddyg iau.

Ymunwch â'n cymuned fywiog o fyfyrwyr meddygol ar Gampws Parc y Mynydd Bychan, sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru, un o'r ysbytai addysgu mwyaf yn y DU. Yma cewch brofiad uniongyrchol o holl weithgareddau ysbyty prysur - gan ddysgu yn ein cyfleusterau addysgu pwrpasol a'n Canolfannau Efelychu a Sgiliau Clinigol; gyda dysgu annibynnol a dysgu grŵp yn y llyfrgell Iechyd; a chael sgwrs gyda ffrindiau yng Nghanolfan Undeb y Myfyrwyr (neu'r Lolfa IV i'n myfyrwyr).

Rydych chi'n unigryw, a ninnau hefyd. Nid yw ein cwricwlwm hyblyg yn gweithio yn yr un ffordd i bawb – mae gennych y pŵer i lywio gwahanol agweddau ar eich gradd trwy gydrannau a ddewisir gan fyfyrwyr, lleoliadau penodol yn y DU neu dramor, neu hyd yn oed radd ymsang mewn pwnc arbenigol. Diolch i'n hymrwymiad i arloesi a dysgu gyda chymorth technoleg, byddwch chi'n mireinio'ch gwybodaeth a'ch sgiliau gan ddefnyddio'r adnoddau diweddaraf, gan gynnwys realiti rhithwir.

**caerdydd.ac.uk/meddygaeth**

> **Mae dod i Gaerdydd wedi agor nifer diddiwedd o ddrysau.** Rwyf wedi gallu cymryd rhan mewn cymaint o bethau sydd wedi datblygu fy nghymeriad ac fy nghyfoethogi i fel person.
>
> **Luke Morgan, Myfyriwr meddygol**

Allwn ni ddim aros i chi ymuno â ni, ac i weld ble fydd ein hyfforddiant meddygol yn mynd â chi. P'un a ydych chi eisoes yn angerddol am faes meddygaeth neu'n gwybod eich bod chi am helpu pobl i fyw bywydau iachach, gyda'n gilydd gallwn ni gyflawni pethau anhygoel.



# C21: Ein rhaglen MBBCh Meddygaeth

Perfformio llawdriniaeth frys, helpu i wella clefydau, trin problemau iechyd meddwl – mae bod yn feddyg yn golygu newid bywydau mewn ffyrdd bach a mawr, bob dydd.

Astudio meddygaeth yw'r cam cyntaf ar daith ddysgu gydol oes, gan fod triniaeth yn datblygu'n gyson ochr yn ochr â darganfyddiadau gwyddonol.

Rydyn ni'n cynnig dwy raglen MBBCh, a fydd yn eich paratoi'n llawn at eich gyrfa fel meddyg. Rydyn ni hefyd yn cynnig cwrs BSc mewn Ffarmacoleg Feddygol.

**I weld yn union beth mae pob rhaglen yn ei gynnig, y meini prawf mynediad, a rhagor o fanylion am y pynciau y byddwch chi'n eu hastudio, ewch i'n gwefan.**





# Meddygaeth (MBBCh)

## Côd UCAS: A100


### Nod ein gradd feddygol yw cynhyrchu meddygon hyderus, gwybodus a medrus, sy'n barod i gynnig gofal cleifion o safon o'u diwrnod cyntaf yn y swydd.



Mae ein rhaglen MBBCh wedi'i strwythuro dros bum mlynedd, gan ganiatáu i chi adeiladu eich gwybodaeth, eich sgiliau clinigol a'ch agwedd broffesiynol o fewn ein cwricwlwm troellog integredig. (Mae hyn yn golygu eich bod yn adeiladu'n barhaus ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn barod mewn ystafelloedd dosbarth, dosbarthiadau ymarferol, darlithoedd, yn yr amgylchedd dysgu rhithwir ac wrth erchwyn gwely'r claf.)

Credwn yn gryf y dylai cleifion fod wrth galon addysg feddygol, a dyna pam y byddwch chi'n dod i gysylltiad â chleifion yn gynnar yn eich blwyddyn gyntaf. Mae ein cwricwlwm amrywiol yn defnyddio Cymru gyfan fel eich ystafell ddosbarth, a byddwch chi'n ennill profiad clinigol mewn meddygfeydd teulu gwledig ac ysbytai bwthyn, adrannau damweiniau ac achosion brys yng nghanol dinas, arbenigeddau llawfeddygol a mwy.

Pediatreg, cardioleg, ymarfer cyffredinol, niwrolawdriniaeth – beth bynnag yw'ch angerdd, gallwn eich helpu chi i gymryd y camau cyntaf yng ngyrfa eich breuddwydion. Bydd eich dwy flynedd gyntaf yn canolbwyntio'n bennaf ar wyddoniaeth glinigol, Dysgu ar Sail Achosion a gweithrediad arferol y corff dynol, gyda lleoliadau clinigol i weld y cyfan yn ei gyd-destun. Byddwch chi'n adeiladu ar hyn ym mlynyddoedd tri a phedwar, gan feithrin eich profiad gyda chleifion trwy leoliadau estynedig mewn lleoliadau clinigol ledled Cymru. Ym mlwyddyn pump, eich Blwyddyn Bontio, byddwn ni'n gwneud yn siŵr eich bod yn barod i bontio'n llyfn i'ch rôl fel Meddyg Sylfaen (F1), gan fagu eich hyder trwy leoliadau arferol a dewisol, a'ch helpu i deimlo'n rhan o'ch tîm nesaf.



**Dysgwch fwy am y cwrs hwn ar ein gwefan.**

# Meddygaeth Mynediad i Raddedigion (GEM)

## Côd UCAS: A101



I ymuno â ni yn ail flwyddyn y rhaglen MBBCh Meddygaeth, efallai yr hoffech ystyried ymuno ag un o'n cyrsiau bwydo sydd wedi'u dilysu.

Y rhain yw Ffarmacoleg Feddygol (Prifysgol Caerdydd); Gwyddoniaeth Fiofeddygol (Prifysgol Caerdydd) a Gwyddorau Meddygol (Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru).

Byddwch chi'n adeiladu ar y sgiliau a ddatblygwyd gennych yn ystod eich gradd gyntaf ochr yn ochr â myfyrwyr o'r cwrs A100, ac yn ennill y wybodaeth, y sgiliau clinigol a'r agwedd broffesiynol i ddod yn feddyg iau hyderus a chymwys.

I roi cychwyn esmwyth i chi, byddwn ni'n dysgu sgiliau clinigol sylfaenol a Dysgu ar Sail Achosion i chi cyn i chi ddechrau eich blwyddyn academaidd gyntaf, sy'n golygu dechrau'n gynharach na myfyrwyr meddygol eraill (fel arfer ychydig ar ôl Gŵyl Banc mis Awst).

**Dysgwch fwy am y cwrs hwn ar ein gwefan.**





# Ffarmacoleg Feddygol (BSc)

## Côd UCAS: B210

### Sut mae meddyginiaethau'n cael eu darganfod a'u datblygu? Pam mae eu hangen arnom ni, a sut maen nhw'n gweithio?

Cyffuriau a meddyginiaethau yw seiliau gofal iechyd - fel myfyriwr Ffarmacoleg Feddygol byddwn ni'n adeiladu ar eich chwilfrydedd naturiol i fynd at wraidd sut a pham y gall cyffuriau a meddyginiaethau helpu i wella bywydau cleifion.

Byddwch chi'n dysgu gan ffarmacolegwyr arbenigol, gan ennill y sgiliau trosglwyddadwy y bydd darpar gyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw mewn meysydd fel dadansoddi data, datrys problemau a thechnegau ymchwil. Gallwch chi ddewis cwblhau'r cwrs mewn tair blynedd, neu bedair blynedd gyda blwyddyn ddewisol ar leoliad ar ôl ail flwyddyn y radd.

Fel myfyriwr graddedig o sefydliad ymchwil blaenllaw sy'n rhan o Grŵp Russell, bydd eich sgiliau a'ch profiad yn eich galluogi i adeiladu gyrfa heriol a gwerth chweil yn y diwydiant fferyllol, y byd academaidd (ar gyfer ymchwil ac addysgu), cyrff rheoleiddio'r llywodraeth, y sector gofal iechyd neu amrywiaeth o yrfaoedd proffesiynol eraill.

**Dysgwch fwy am y cwrs hwn ar ein gwefan.**






**Mae astudio Ffarmacoleg Feddygol yma yng Nghaerdydd wedi bod y 4 blynedd fwyaf buddiol o addysg i mi eu cael erioed, ac rwy'n teimlo'n hynod lwcus fy mod wedi bod yma.** Mae'r cynllun gradd yn cynnig cyfle unigryw i fyfyrwyr sydd am ddechrau gyrfa mewn naill ai gwyddoniaeth neu feddygaeth, wrth gynnal maint carfan bychan fel eich bod wir yn teimlo eich bod yn cael cefnogaeth aelodau staff.

**Frank Frayne**
**Myfyriwr Ffarmacoleg Feddygol**

# Datblygu sgiliau am oes

Anogir ein myfyrwyr i ryngweithio, cymryd rhan, gofyn cwestiynau a myfyrio. Credwn mai meddygon chwilfrydig sy'n datrys problemau sy'n rhoi'r safon uchaf o ofal i'w cleifion.



## Dysgu ar Sail Achosion (CBL)

Dechreuodd Prifysgol Caerdydd ddefnyddio CBL, sef dull dysgu ac addysgu mewn grwpiau bach, ar gam cynnar. Mae'n cadw'r claf wrth wraidd eich astudiaethau, gan ddarparu deilliannau dysgu clir a gweithgareddau ac adnoddau strwythuredig. Mae hyn yn eich helpu i gysylltu'r hyn rydych chi'n ei ddysgu am yr achos â'r wyddoniaeth berthnasol, y sgiliau clinigol a'r wybodaeth gefndirol y bydd eu hangen arnoch pan fyddwch chi'n feddyg cymwys. Yn ystod eich dwy flynedd gyntaf gyda ni, byddwch chi'n astudio cyfres o achosion clinigol, un bob pythefnos yn fras. Er enghraifft, os yw'r achos yn cynnwys athletwr sydd ag anaf i'w ben-glin, cewch ddarlithoedd a chyflwyniadau ategol ar fecanweithiau llid a meddyginiaethau gwrthlidiol; byddwch yn archwilio cymal a system gyhyrol y ben-glin yn y ganolfan anatomeg trwy ddyrannu a thechnegau eraill; ar leoliad, efallai y byddwch chi mewn clinig sy'n delio ag anafiadau chwaraeon a byddwch chi'n dysgu sut i archwilio pen-glin mewn sesiynau sgiliau clinigol. Yn ogystal, bydd sesiynau CBL grŵp bach yn eich helpu i ddatblygu sgiliau academaidd a phroffesiynol pwysig fel ymchwil, gweithio mewn tîm, cyfathrebu ac arfarnu beirniadol. Ond mae anghenion cleifion yn fwy cymhleth na rhwymo clwyfau, wrth gwrs - byddwn ni'n eich helpu i ddeall materion seicogymdeithasol ac economaidd a ffactorau ffordd o fyw sy'n gwneud pob un o'ch cleifion yn unigryw.

**Gwyliwch sesiwn grŵp Dysgu ar Sail Achosion yma.**

## Sgiliau ymgynghori

Y gallu i gyfathrebu'n dda yw un o'r pethau cyntaf y mae cleifion yn sylwi arno. Byddwch chi'n datblygu ac yn gwella eich sgiliau cyfathrebu yn gyson trwy leoliadau clinigol rheolaidd, ond hefyd 'nôl yn y brifysgol. Bydd ein gweithdai, sy'n uchel eu parch, yn eich helpu chi i gasglu gwybodaeth, esbonio clefydau a thriniaethau, rhoi cymorth i gleifion gofidus a delio â sgiliau mwy cymhleth, fel torri newyddion drwg, mewn amgylchedd diogel. Byddwch chi'n mynychu gweithdai trwy gydol y cwrs, yn ymgynghori ag actorion sydd wedi'u hyfforddi i ymddwyn fel cleifion, a gyda chleifion go iawn hefyd, gan dderbyn adborth a chael eich ffilmio o bryd i'w gilydd i adolygu eich perfformiad eich hun.



# Eich cwrs chi, eich dewis chi

Mae pob myfyriwr meddygol yn unigryw, ac mae llawer o'n myfyrwyr yn dechrau eu hyfforddiant gyda diddordeb mewn maes neu bwnc penodol. Efallai eich bod chi neu rywun rydych chi'n ei nabod wedi cael eich effeithio gan gyflwr fel canser, efallai eich bod chi wrth eich bodd yn gweithio gyda phlant, neu efallai eich bod chi'n teimlo mai llawfeddygaeth yw'r arbenigedd i chi. Ein nod yw helpu ein myfyrwyr i ddilyn eu hangerdd, archwilio eu diddordebau a datblygu i fod y meddyg gorau y gallan nhw fod - a dyna pam mae ein cwrs MBBCh yn cynnig digon o gyfleoedd i'w deilwra at eich dant.



## Cydrannau a Ddewisir gan Fyfyrwyr (SSCs)

Mae SSCs yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd prosiect sy'n eich galluogi i archwilio maes meddygaeth yn fanwl. Rydyn ni'n cynnig SSCs ar draws pob un o bum mlynedd y cwrs, o ymchwil glinigol i wyddoniaeth sylfaenol, ynghyd â chysylltiadau rhwng y celfyddydau ac iechyd. Bydd cyfle i chi ddewis o blith SSCs a gynigir gan diwtor neu ddylunio eich prosiect pwrpasol eich hun – dyma'ch cyfle i fod yn hynod greadigol, gan deilwra'ch gradd i'ch diddordebau a'ch dyheadau gyrfaol eich hun.

## Lleoliad Dewisol

SSC y flwyddyn olaf, eich lleoliad dewisol, yn aml yw un o uchafbwyntiau eich amser yn yr ysgol feddygol. Byddwch chi'n dylunio profiad sy'n canolbwyntio ar bwnc sydd o ddiddordeb i chi, yn unrhyw le (bron), o Aberystwyth i Zambia. Byddwch chi'n ariannu eich taith eich hun, ond mae gennym ni staff i helpu a rhaglenni sydd wedi'u trefnu'n dda, a gallwn ni eich cyfeirio at fwrsariaethau ariannol defnyddiol.

**Darllenwch am rai o brofiadau ein myfyrwyr ar leoliad dewisol yma**

## Sgiliau iaith

Gall sgiliau iaith agor drysau trwy gydol eich gyrfa, ac mae trin cleifion sy'n siarad iaith arall yn hyderus yn sgìl trosglwyddadwy gwerthfawr. Byddwn ni'n eich cefnogi i wneud hyn yn effeithiol, gyda Chymru ddwyieithog yn ystafell ddosbarth i chi ac ystod eang o gyrsiau dewisol a chyrsiau am ddim ar gael, gan gynnwys cyrsiau dwys ac ymgynghorwyr a all eich helpu i ddysgu neu wella ar ieithoedd presennol.

**Dysgwch fwy am y cynllun Ieithoedd i Bawb yma.**

## Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg

Rydyn ni'n cynnig cyfweliadau derbyn Cymraeg a dwyieithog, ac mae rhai o'r neuaddau preswyl wedi cael eu neilltuo ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Gall ein myfyrwyr Meddygaeth ddewis gweithio'n Gymraeg mewn rhannau o'r cwrs, a lle mae hyn yn cyfateb i o leiaf 33% o'ch astudiaethau, efallai y byddwch chi hefyd yn gymwys i gael ysgoloriaeth drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Dysgwch fwy am fod yn fyfyriwr meddygol sy'n siarad Cymraeg.**

## Graddau ymsang

Os ydych chi am archwilio maes penodol o feddygaeth yn fwy manwl yn ystod eich gradd feddygol israddedig, gallai gradd ymsang fod yn berffaith i chi. Mae myfyrwyr ymsang yn oedi eu MBBCh ar gyfer blwyddyn ychwanegol o astudio mewn maes gwahanol sy'n gysylltiedig â meddygaeth, naill ai ar ôl blwyddyn tri neu flwyddyn pedwar o'u cwrs MBBCh, gan raddio gyda gradd feddygol ac iBSc (neu MSc). Rydyn ni'n cynnig ystod eang o raddau ymsang, pob un ohonyn nhw'n darparu sgiliau ymchwil trosglwyddadwy gwerthfawr i gyfoethogi CV. Mae ein gwefan yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cyrsiau penodol sydd ar gael.

**Dysgwch fwy am Raddau Ymsang yma.**

# Nid eich ystafell ddosbarth arferol

## Credwn fod astudio yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth drawiadol o brofiadau clinigol i fyfyrwyr meddygol sy'n ychwanegu gwerth anhygoel at eich gyrfa feddygol.

Byddwn ni'n eich rhoi mewn cysylltiad clinigol cynnar gyda chleifion a chlinigwyr o'ch blwyddyn gyntaf ac, yn raddol, byddwch chi'n teithio ymhellach i ffwrdd ar leoliadau hwy, gyda chyfrifoldeb cynyddol fel aelod o dîm meddygol.

Erbyn eich trydedd flwyddyn, byddwch chi'n treulio mwy o amser gyda'ch cleifion nag ar y campws a byddwch wedi magu profiad ymarferol o ystyr darparu gofal meddygol ar draws y sbectrwm – o feddygfeydd mewn cymunedau amaethyddol i ysbytai bach mewn trefi glan-môr poblogaidd a threfi ôl-ddiwydiannol, i arbenigeddau trydyddol mewn ysbytai addysgu trefol mawr.



### Eisiau'r opsiwn o drydedd flwyddyn wahanol?

Gallech ystyried treulio'r flwyddyn academaidd fel aelod gwerthfawr o bractis meddyg teulu gan ymgymryd â chlerciaeth integredig hydredol (LIC). Byddwch chi'n dysgu mewn tîm clinigol, a gefnogir yn llawn gan Brifysgol Caerdydd, y meddyg teulu rydych chi'n gysylltiedig ag ef a'ch ysbyty cyffredinol dosbarth lleol.

**Dysgwch fwy am y profiad gwych hwn yma.**

### Hyfforddiant Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd Efelychiadol

Mae'r gweithgaredd blynyddol hwn yn dod â'n myfyrwyr ail flwyddyn a phersonél gwasanaethau brys amlasiantaethol lleol ynghyd.  Byddwch chi'n rhyngweithio â'r gwasanaethau brys i reoli digwyddiad mawr gydag anafiadau lluosog. Mae amrywiaeth o sgiliau clinigol a chyfathrebu yn cael eu hymarfer yn ystod y diwrnod ysgogol hwn, gan roi cipolwg gwerth chweil i chi ar opsiwn arall sydd ar gael i chi mewn ymarfer clinigol.

**Gwyliwch ein fideo Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd Efelychiadol yma.**



# Ble byddwch chi'n dysgu

## Y Ganolfan Sgiliau Clinigol

Mae'r Ganolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol yn ofod diogel sy'n cynnwys yr holl offer angenrheidiol sy'n eich galluogi i ddysgu sgiliau clinigol ac ennill profiad gwerthfawr. Mae eich dysgu'n canolbwyntio ar y sgiliau ymarferol allweddol a osodir gan y CMC. Ar ôl y sesiynau wedi'u hamserlennu, gallwch ymarfer y sgiliau yn ein hardal Dysgu Hunangyfeiriedig, lle cewch ddefnyddio pob math o offer ac amgylchedd cwbl ddiogel i fagu profiad a ffydd yn eich galluoedd.

## Y Ganolfan Efelychu

Mae'r Ganolfan Efelychu'n cynnig amgylchedd cefnogol i archwilio senarios clinigol, fel y gallwch wybod sut i drin unrhyw sefyllfa sy'n codi yn ddiogel a digynnwrf. Mae gan ein cyfleuster bedair ystafell efelychu, sy'n cynnwys modelau o gleifion mewn ardal sy'n edrych ac yn teimlo fel lleoliad clinigol. Bydd camerâu sydd wedi'u lleoli'n strategol yn caniatáu i chi chwarae fideos yn fyw a'u gwylio 'nôl, gan eich galluogi chi a'ch cyfeillion i ddysgu fel cyfranogwyr ac arsylwyr.

## Y Ganolfan Anatomeg

Siaradwch â'n myfyrwyr a byddwch chi'n siŵr o glywed mai dyrannu yn aml yw un o uchafbwyntiau eu gyrfa yn yr ysgol feddygol. Byddwch chi'n astudio anatomeg yn ein Canolfan Anatomeg drawiadol ar Gampws Cathays trwy addysgu grŵp bach dan arweiniad anatomegwyr clinigol, academyddion ac arddangoswyr clinigol o Ysgol y Biowyddorau. Diben ein hystod o ddulliau addysgu, sy'n cynnwys dyrannu, difynio, peintio'r corff, e-ddysgu a thiwtorialau fideo, yw sicrhau bod eich addysg anatomeg yn ategu pob achos neu system wrth i chi ymchwilio iddynt yn eich lleoliadau, eich darlithoedd a'ch tiwtorialau.

**Cymerwch olwg ar ein cyfleusterau trwy ein Taith Rithwir.**

# Ymchwil o'r radd flaenaf

## Rydyn ni'n aelod o Grŵp Russell, sef prifysgolion ymchwil-ddwys mwyaf blaenllaw Prydain.

Yr Ysgol Meddygaeth yw'r hynaf yng Nghymru ac rydyn ni'n un o'r rhai mwyaf yn y DU. Rydyn ni'n falch o'n hymchwil, sy'n uchel ei pharch yn rhyngwladol, ac rydyn ni hefyd yn falch o'r ffaith bod ein myfyrwyr meddygol yn dysgu gan ymchwilwyr y mae eu gwaith yn cael effaith wirioneddol ar gymdeithas. Dechreuodd profion i ragfynegi prognosis canser y fron, y broses o gyflwyno'r brechlyn HPV, technegau i ddefnyddio celloedd imiwnedd i ladd canser y gwaed, a llawer mwy yma yn ein Hysgol Meddygaeth.

Mae ein hymchwil wedi ei threfnu yn ôl meysydd: Canser a Geneteg; Haint ac Imiwnedd; Meddygaeth Poblogaeth; a Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddorau Clinigol. Mae ein Hysgol Meddygaeth hefyd yn gartref i ddau o Sefydliadau Ymchwil y Brifysgol: Sefydliad Ymchwil y Niwrowyddorau ac Iechyd Meddwl a'r Sefydliad Ymchwil Imiwnedd Systemau.

Mae angen i feddygon deimlo'n gyfforddus gydag ymchwil; wrth ei defnyddio i lywio penderfyniadau ac wrth ei chynnal. Byddwn ni'n eich helpu gyda hyn, a byddwch chi'n cael cyfleoedd niferus i ddysgu gan ein hymchwilwyr arbenigol ar draws ein hisadrannau ymchwil, gan ddatblygu sgiliau a fydd o fudd i chi drwy gydol eich gyrfa. Os ydych chi am fynd ymhellach ym myd ymchwil, bydd gennych fynediad at gyfleoedd o safon fyd-eang, yn ogystal â Chymdeithas Ymchwil Prifysgol Caerdydd (CUReS) a arweinir gan fyfyrwyr.

**Mae rhagor o wybodaeth am ein rhagoriaeth ymchwil yma.**

# Eich cefnogi bob cam o'r ffordd

## Mae meddygaeth yn yrfa heriol – yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol. Rydyn ni yma i'ch cefnogi ar lefel bersonol, yn ogystal ag ar eich taith academaidd

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, mae gennych fynediad at gyngor, arweiniad a chymorth ar ystod eang o bynciau drwy'r tîm Bywyd Myfyrwyr, a gallwch hefyd gael cymorth penodol gan yr Ysgol Meddygaeth.

Pan fyddwch chi'n ymuno â ni, bydd tiwtor personol yn cael ei roi i chi, a fydd yn cwrdd â chi'n rheolaidd ac yn gallu eich cyfeirio at gymorth pellach os bydd ei angen arnoch. Os ydych chi'n cael problemau personol, cysylltwch â thîm cymorth gwych MyMedic - gallan nhw helpu gyda phryderon personol ac iechyd a'ch cysylltu â gwasanaethau cymorth ehangach y Brifysgol. Mae sicrhau eich bod yn derbyn gofal da pan fyddwch i ffwrdd ar leoliad hefyd yn bwysig i ni, ac mae gennym staff cymorth ym mhob ysbyty dosbarth yng Nghymru, felly bydd 'na glust i wrando bob amser.

**Mae ysgol feddygol sy'n deall y byd ehangach yn cynhyrchu meddygon â'r un ddealltwriaeth.** Rydyn ni'n adeiladu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'u heffeithiau i mewn i'ch cwricwlwm, yn ogystal â chynaliadwyedd a materion amgylcheddol.

**Dysgwch fwy ar ein gwefan.**



# Bywyd y tu allan i astudio

## Mae myfyrwyr meddygol yn gweithio'n galed, ond mae'n gamsyniad cyffredin na fydd gennych chi amser ar gyfer unrhyw beth arall.

Yng Nghaerdydd mae 'na amrywiaeth eang o gymdeithasau a thimau chwaraeon y gallwch chi ymuno â nhw, rhai ohonyn nhw ar gyfer myfyrwyr meddygol fel chi, ac eraill yn agored i unrhyw un ar draws y Brifysgol. Beth bynnag fo'ch diddordebau, rydych chi'n siŵr o ddod o hyd i rywbeth (neu ryw bethau!) sydd at eich dant.

**Mae'r cymdeithasau myfyrwyr a'r elusennau sy'n gysylltiedig â meddygaeth yn cynnwys:**

- Y Gymdeithas Feddygol Affricanaidd Caribïaidd (ACMA)
- Cymdeithas Anaestheteg, Amdriniaethol a Gofal Dwys Caerdydd (CAPS)
- Safbwyntiau Rhyngwladol Gofal Iechyd Caerdydd (CHIPS)
- Rygbi Meddygon Caerdydd
- Ymatebwyr Cyntaf Meddygon Caerdydd
- Meddygon Mwslimaidd Caerdydd
- Cymdeithas Seiciatreg Myfyrwyr Caerdydd
- Cymdeithas Offthalmoleg Prifysgol Caerdydd
- Cymdeithas Clefydau Prin Prifysgol Caerdydd
- Cymdeithas Ymchwil Prifysgol Caerdydd
- Cymdeithas Merched mewn Llawfeddygaeth Prifysgol Caerdydd
- Y Gymrodoriaeth Feddygol Gristnogol
- Y Gymdeithas Niwrowyddoniaeth Glinigol
- Clwb y Mynydd Bychan
- Gwyddoniaeth Cyffuriau Caerdydd
- Y Gymdeithas Meddygon Teulu
- Cymdeithas HEAL (Cydraddoldeb ac Eiriolaeth Gofal Iechyd i'r Gymuned LHDTC+)
- Y Gymdeithas Ddrama Gofal Iechyd
- Y Gymdeithas Gerdd Gofal Iechyd
- Codi Gwên
- Clwb Pêl-fasged y Meddygon
- Clwb Pêl-droed y Meddygon
- Clwb Hoci Merched y Meddygon
- Clwb Hoci Dynion y Meddygon
- Clwb Pêl-rwyd y Meddygon
- Clwb Sboncen y Meddygon
- MedSoc
- Y Gymdeithas Technoleg Feddygol ac Arloesi
- Y Gymdeithas Meddygaeth Nutraceuticaidd a Maethol
- Y Gymdeithas Oncoleg (CUOS)
- OSCEazy
- Y Gymdeithas Bediatrig (CUPS)
- Y Gymdeithas Ffarmacoleg
- Y Gymdeithas Radiotherapi ac Oncoleg (Cymdeithas RandO)
- Meddygaeth Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Myfyrwyr dros Gymdeithas Iechyd Fyd-eang
- Y Gymdeithas Lawfeddygol
- Ysbyty'r Tedis Caerdydd
- Cymdeithas Calonnau Cymru
- Cynllun Mentora Ehangu Mynediad i Feddygaeth
- Y Gymdeithas Feddygaeth Ardaloedd Gwyllt ac Alldeithiau
- Y Gymdeithas Iechyd, Obstetreg a Gynaecoleg Merched



**Dysgwch fwy am yr ystod lawn o gymdeithasau a thimau chwaraeon y gallwch ymuno â nhw yma.**




## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2026 ac mae'n gywir pan aeth i'r wasg ym mis Hydref 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma.

Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'r wefan, cynnwys y wefan fydd yn cael blaenoriaeth ac yn nodi'r sail rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC®).

Mae'r argraffwyr hefyd wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

**This document is also available in English.**

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:
Ffôn: 029 2087 4455
E-bost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

## Rydyn ni yma i'ch helpu chi

Ffoniwch ein Tîm Derbyn Myfyrwyr ar **029 2068 8113**
neu e-bostiwch **medadmissions@caerdydd.ac.uk**

### Ydych chi'n hoffi beth rydych chi wedi'i ddarllen?

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth gynhwysfawr am Dderbyn Myfyrwyr ar-lein. Mae ein tudalen Derbyn Myfyrwyr yn cynnwys popeth sydd angen i chi ei wybod am wneud cais am gwrs meddygaeth – ein gofynion mynediad academaidd ac anacademaidd, UCAT, cyfweliadau a mwy.

### Oes gennych chi gwestiwn sydd heb ei ateb uchod?

Gall ein dogfen Cwestiynau Cyffredin helpu.

### Rhieni a phobl eraill sy'n cefnogi ymgeisydd sydd am astudio meddygaeth

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol ar ein tudalen Rhieni a Chefnogwyr.

MEDIC/1024